Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Llun, 7 Ionawr 2013**

Amser:
**14:30**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Gareth Williams**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8008/8019
PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

### 1. Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3
### 2.

Offerynnau'r Weithdrefn Negyddol

**CLA190 - Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Cymru)**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 21 Tachwedd 2012. Fe'i gosodwyd ar 26 Tachwedd 2012. Yn dod i rym ar 17 Rhagfyr 2012.

**CLA191 - Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2012**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 4 Rhagfyr 2012. Fe'i gosodwyd ar 5 Rhagfyr 2012. Yn dod i rym ar 26 Rhagfyr 2012.

**CLA192 - Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodaeth a Gweithdrefn) (Diwygio) 2012**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 1 Rhagfyr 2012. Fe'u gosodwyd ar 5 Rhagfyr 2012. Yn dod i rym ar 1 Ionawr 2012.

**CLA195 - Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2012**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 4 Rhagfyr 2012. Fe'u gosodwyd ar 6 Rhagfyr 2012. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2012.

## 3. Y dull o graffu ar Filiau'r Cynulliad (Tudalennau 1 - 2)

**CLA(4)-01-13(p1)** Y dull o graffu

*Crynodeb o Fil Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)*
*http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/research/bus-assembly-research-publications/research-constitution/research-constitution-bill-summary.htm*

## 4. Papurau i'w nodi (Tudalen 3)

**CLA(4)-01-13(p2)** Llythyr gan y Gweinidog mewn perthynas â CLA178 - Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2012

## 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

> **Caiff pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:**
> **(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson; a**
> **(ix) lle mae unrhyw fater sy'n ymwneud â busnes mewnol y pwyllgor…i gael ei drafod.**

## 6. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Trosedd a Llysoedd (Tudalennau 4 - 7)

**CLA(4)-01-13(p3)** Adroddiad

## 7. Ymchwiliadau'r Pwyllgor yn y dyfodol (Tudalennau 8 - 22)

**CLA(4)-01-13(p4)** Ymchwiliadau'r Pwyllgor yn y dyfodol

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## Craffu ar Filiau a gyflwynwyd yn ystod tymor yr hydref

### Diben

1. Gwahodd y Pwyllgor i ystyried ei ddull o graffu ar y Biliau y cyfeirir atynt ym mharagraff 2 isod.

### Cefndir

2. Cafodd y Biliau a ganlyn eu cyflwyno yn yr hydref:

| | Bil | Yr Aelod sy'n Gyfrifol: | Y dyddiad adrodd ar gyfer y Pwyllgor Pwnc | Yn cynnwys pwerau i wneud gorchmynion a rheoliadau |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru) | Peter Black AC | 22 Chwefror 2013 | Ydy |
| 2 | Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) | Mick Antoniw AC | 8 Mawrth 2013 | Ydy |
| 3 | Y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) | Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau | 22 Mawrth 2013 | Ydy |
| 4 | Y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) | Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 22 Mawrth 2013 | Ydy |

3. O dan Reol Sefydlog 21, mae rôl y pwyllgor yn cynnwys ystyried a chyflwyno adroddiad ar:

(a) pa mor briodol yw darpariaethau mewn Biliau'r Cynulliad sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol;

(b) unrhyw fater deddfwriaethol cyffredinol sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n ymwneud â'r cymhwysedd hwnnw.

### Materion i'w hystyried

4. Bydd nodiadau briffio cyfreithiol ar bwerau i wneud gorchmynion a rheoliadau sydd wedi'u cynnwys mewn Biliau yn cael eu rhoi i Aelodau.

5. Bydd Aelodau am ystyried a ydynt yn dymuno galw'r Aelodau sy'n gyfrifol i roi tystiolaeth mewn perthynas â'u Biliau.

6. Bydd Aelodau hefyd am ystyried a ydynt yn dymuno galw’r Gweinidog perthnasol i roi tystiolaeth mewn perthynas â Biliau y mae Aelodau’r meinciau cefn yn gyfrifol amdanynt.

**Cam i’w gymryd**

7. Gwahoddir yr Aelodau i gytuno ar y dull o gasglu tystiolaeth mewn perthynas â’r Biliau uchod.

**John Griffiths AC /AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**
**Minister for Environment and Sustainable Development**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Melding AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion
Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

8 ~~Tachwedd~~ Rhagfyr 2012

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Tachwedd ynghylch Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2012 ('Y Rheoliadau').

Mae Cyfarwyddeb yr UE yn nodi bod yn rhaid i barth gwyliadwriaeth ymestyn o leiaf 50 cilometr y tu hwnt i ffiniau'r parth gwarchod. Byddai ardal parth gwyliadwriaeth sy'n fwy na hyn yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Gyfarwyddeb.

Pe bai achosion o feirws y Tafod Glas yn digwydd, byddai Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi parthau o faint priodol sy'n cydymffurfio â'r gyfraith, yn seiliedig ar y dystiolaeth berthnasol i gyd. Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi'n eang drwy'r cyfryngau a gohebiaeth yn wasg, fel yn yr achosion o glefydau yn y gorffennol.

Yn gywir

**John Griffiths AC / AM**
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Minister for Environment and Sustainable Development

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.John.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon